# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 2 Mai 2012** |
| Amser: | **09:30 - 11:05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

**http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400003_02_05_2012&t=0&l=cy**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Nick Ramsay (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Julie James**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Ken Skates**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Jeff Cuthbert, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau**<br>**Suzanne Chisholm, Pennaeth Cynorthwyo Pobl Ifanc**<br>**Teresa Holdsworth, Teresa Holdsworth, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Anne Thomas (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Pwyllgor. Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas; nid oedd neb yn dirprwyo.

### 2. Sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau - Y wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

2.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Teresa Holdsworth, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru a Suzanne Chisholm, Pennaeth Cynorthwyo Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru. Bu'r Aelodau yn holi'r Dirprwy Weinidog ynghylch y cynnydd a wnaed ers i'r Pwyllgor Menter a Busnes gyhoeddi ei adroddiad ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mis Hydref 2010.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau i roi gwybodaeth a ffigurau manylach i'r Pwyllgor ynghylch faint o gynlluniau sy'n bodoli i fynd i'r afael â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Cynigodd y Cadeirydd gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig, a symudodd i sesiwn breifat.

## 4. Dylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael yr Undeb Ewropeaidd - Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad, yn amodol ar wneud rhai gwelliannau.

## TRAWSGRIFIAD

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.